COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 7FED GORFFENNAF 2015 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Y Maer, y Cynghorydd Dr S. Roy
Y Cynghorydd D. Porter (Cadeirydd)
Cynghorwyr W Bagnall, N. Bastow, Mrs L. Edwards, R. Foreman, Mrs L. Griffiths, Mrs M. Jones, J. Pearson (Warden Coed), S. Williams, C. Wood.

SWYDDOG: Mrs C J Earley (Clerc y Dref)

83/15 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd C. Perry a Charlotte Gardner (Myfyrwraig Ymgynghorol).

84/15 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

85/15 Cofnodion:

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 16eg Mehefin 2015 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir.

86/15 Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:

a. Cofnod 30/15(a) – Parcio Anghyfreithlon ger Cyffyrdd:

Cyflwynodd y Clerc ymateb byr gan yr Adran Briffyrdd ac ymateb manwl gan y Rhingyll Keene, Heddlu Gogledd Cymru, yn cadarnhau nad yw methu cyd-fynd a rhan o God y Briffordd (megis parcio o fewn 10 medr o gyffyrdd) yn golygu bod yr unigolyn i fod yn destun achos troseddol. Rhaid i Blismyn felly dewis yn ddoeth wrth benderfynu os mae hyn yn achosi rhwystr, ac os mae, yna fe ellir rhoi cosb benodol gan ddefnyddio deddfwriaeth arall sydd ar gael. Nid yw'r pwerau hyn ar gael i PCSO. Y cyngor i aelodau / y cyhoedd yw rhoi adroddiad am unrhyw gerbyd sy'n achosi rhwystr i'r heddlu ac mi ddaw swyddog draw os oes un ar gael. Os mae rhyw gyffordd arbennig yn achosi trafferth, y dull orau i weithredu yw gofyn i'r Adran Briffyrdd gosod llinellau melyn. Mae hyn nid yn unig yn gweithio fel arf ataliol ond mae'n hwyluso gorfodaeth hefyd.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r cyngor a'r wybodaeth gan y Rhingyll Keene.

Dywedodd y Cynghorydd Foreman wrth yr aelodau ei fod wedi bod yn gweithio yn agos gyda Swyddogion y Priffyrdd am nifer o flynyddoedd ar faterion yn ymwneud a pharcio. Cynigodd bod y swyddog a fu'n cymorth mawr iddo (Emma) yn cael ei gwahodd i gyfarfod y Pwyllgor yn y

dyfodol i drafod pryderon yr Aelodau am barcio a materion yn ymwneud a gorfodaeth.

Penderfynwyd ysgrifennu at Emma (Priffyrdd) yn ei gwahodd i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

b. Cofnod 65/15 – Pier Victoria:

i. Cyflwynodd y Clerc ymateb byr i'r llythyr a anfonwyd at Carl Sergeant, y Gweinidog dros Adnoddau Naturiol, yn cadarnhau na dderbyniwyd cais hyd yn hyn oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) i ddymchwel y Pier. Roedd yn hysbysu'r Cyngor hefyd am y ddeddfwriaeth / rheoliadau bydd yn gymwys pan dderbynnir y cais. Fe nodwyd bydd cais CBSC yn cael ei gyflwyno i CADW yn y lle cyntaf cyn i adroddiad cael ei gyflwyno i'r Gweinidog(ion) perthnasol am benderfyniad. Nid oedd yr ymateb a dderbyniwyd o help i egluro'r sefyllfa parthed cais am ymchwiliad cynllunio. Fe nodwyd bod y Clerc, yn y cyfamser, wedi anfon cais am fwy o wybodaeth am hyn a mynegwyd pryder bydd ymchwiliad o'r fath yn golygu costau na fyddai'n bosibl i'w hadennill oddi wrth yr unigolyn / mudiad sy'n gofyn amdano.

Penderfynwyd bod y Clerc i roi adroddiad am unrhyw ymateb pellach i'r Pwyllgor cyn gynted ag y daw i law ac i geisio eglurhad am bwy fydd yn gyfrifol am dalu costau unrhyw ymchwiliad cynllunio.

ii. Cyflwynodd y Clerc copi o'r adroddiad a gyflwynwyd gan Grŵp Llywio'r Pier i Gyfarfod Arbennig CBSC a gynhaliwyd ar 30ain Mehefin (trwy law'r Cynghorydd A. Khan, gan nad oedd gan y Cyngor Tref nag Ymddiriedolaeth Pier Victoria Colwyn (YPVC) yr hawl i wneud sylwadau uniongyrchol i'r Cyngor), ac fe nodwyd canlyniad y cyfarfod hwnnw gan yr Aelodau sef bod cynnig y Cynghorydd Khan, ar ran y Grŵp Llywio, wedi colli o 18 pleidlais i 16 ac mai cynnig gwreiddiol CBSC a orfu. Roedd rhai o'r Cynghorwyr Sir o dan yr argraff bod y ddau safbwynt yn debyg iawn i'w gilydd ac fe sicrhawyd y Pwyllgor gan y Prif Weithredwr a'r Arweinydd bydd trafodaethau'n parhau i gael eu cynnal gydag YPVC unwaith y ceir adborth mwy manwl gan Gronfa Treftadaeth y Loteri (CTL). Fe nodwyd hefyd bod y fideo we o'r cyfarfod ar gael i'w weld ar wefan CBSC.

iii. Yna rhoddwyd adborth byr ar lafar gan y Cadeirydd a'r Clerc am sgwrs rhwng y Grŵp Llywio a Martin Buckridge, CTL a gynhaliwyd dydd Gwener diwethaf. Fe nodwyd bod yr adborth a dderbyniwyd wedi gwneud dim i chwalu pryderon y Grŵp mai diffyg cefnogaeth gan GBSC oedd y prif reswm am wrthod y cais. Roedd Bwrdd CTL wedi cydnabod bod gan y cais lawer o botensial a byddai datblygu'r Pier yn dda i'r gymuned yn ogystal ag i adnewyddiad economaidd. Fodd bynnag, oherwydd y posibilrwydd bydd y costau'n cynyddu, o gofio'r ddau ganlyniad gwahanol gan y peirianwyr, ynghyd a'r diffyg cefnogaeth amlwg gan y Cyngor Sir (a'r effaith byddai hyn yn cael ar ddenu'r cyllid cyfatebol angenrheidiol), fe ystyriwyd ei fod yn ormod

o risg. Rhoddwyd cyngor i'r Grŵp ar hyn byddai'n rhaid iddynt wneud er mwyn bod mewn sefyllfa i ailgyflwyno cais.

Fe nodwyd bydd adroddiad ysgrifenedig ac argymhellion yn cael eu cyflwyno i gael eu hystyried gan y Cyngor Tref ar 20fed Gorffennaf.

Penderfynwyd argymell bod y Cyngor yn anfon llythyr arall at CADW (gyda chopïau i Weinidogion perthnasol Llywodraeth Cymru) i amlinellu'r adborth a dderbyniwyd gan CTL ac amlygu'r effaith cafodd y diffyg cefnogaeth gan GBSC ar y cais.

87/15 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:</u>

a. Cyflwynodd y Clerc llythyr ymgynghori i'w ystyried, am ddyfodol y Gwasanaethau Cofrestriad yng Nghonwy. Fe nodwyd i'r swyddfa ym Mae Colwyn cau ers Rhagfyr 2010 a'r swyddfa yn Llanrwst, ers Mai 2013. Y dymuniad nawr oedd gwneud y trefniadau hyn yn barhaus gyda'r brif swyddfa yn aros yn Llandudno.

Penderfynwyd argymell cefnogi'r cynigion.

b. Cyflwynodd y Clerc adroddiad ysgrifenedig gan y Cynghorydd B. Bagnall am gyfarfod Bwrdd Byw yn y Bae a gynhaliwyd ar 29ain Mehefin. Cyfeiriodd y Cynghorydd Bagnall yn benodol, ar lafar, i'r trafodaethau am y dichonoldeb o droi'r Imperial i fod yn westy i'w redeg gan Fenter Gymdeithasol; roedd angen gwneud gwelliannau i'r mynediad o Barc Eirias i'r Promenâd; yr angen am CPO ar eiddo yn Ffordd Lawson i gwblhau prosiect tai; a chais gan Wetherspoons am dir ar gyfer ardd gwrw.

Penderfynwyd diolch i'r Cynghorydd Bagnall a derbyn a nodi ei adroddiad.

88 /15 <u>Un Llais Cymru:</u>

Cyflwynodd y Clerc nodyn briffio ar Nwy Siâl a Ffracio Hydrolig (ffracio) yng Nghymru a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru, er gwybodaeth.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a'i nodi.

89/15 <u>Gohebiaeth Arall:</u>

Fe nodwyd bod yr eitemau canlynol o ohebiaeth ar gael gan y Clerc ar gais:

a U3A - Llythyr cyflwyno ac amryw daflenni
b. Cymdeithas Tramffordd Llandudno a Bae Colwyn - Taflen Newyddion Mehefin 2015
c. Colwyn yn ei Blodau:
   i Fe nodwyd bod cyfarfod wedi cael ei gynnal ddoe a bydd y cofnodion drafft ar gael yn ddiweddarach yn yr wythnos. Bydd beirniad Cymru yn ei Blodau yn ymweld â Bae Colwyn yn y bore ar ddydd Llun, 13eg Gorffennaf.
   ii. Cyflwynodd y Clerc neges e-bost oddi wrth y Pwyllgor yn amlinellu pryderon am y gwelyau blodau yn Eglwys St John a gyllidwyd trwy grantiau gan WREN ag eraill. Gorchuddiwyd y tir

gyda gwair am nad oedd gwirfoddolwyr ar gael i'w cynnal a'i gadw.

Gofynnwyd a oedd y PCC wedi ceisio cael grwpiau lleol megis Ffederasiwn Amgylcheddol Hen Golwyn , Sgowtiaid Hen Golwyn neu 'Mens Shed' i helpu gyda'r cynnal a chadw parhaus.

Penderfynwyd ysgrifennu at y Cannon Bellamy i atgoffa'r Eglwys am amodau'r cyrff sy'n rhoi grantiau a fyddai'n golygu cynnal a chadw parhaus am o leiaf deg mlynedd, ac i ofyn a geisiwyd cymorth gan grwpiau lleol, yn cynnwys y rhai y cyfeiriwyd atynt, i weld a oes cymorth ar gael.

90/15 <u>Cynllunio</u>:

a. Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd gan GBS Conwy i'w ystyried.

Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.

b. Cyflwynodd y Clerc y Penderfyniadau Cynllunion a roddwyd gan GBS Conwy am y cyfnod 22/05 hyd at 5/7/15.

c. Fe nodwyd bod cais O/41680 wedi cael ei dynnu'n ôl**.**

ch. Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am yr hyfforddiant cynllunio sydd i gael eu cynnal ar 15fed a'r 21ain Gorffennaf ac fe anogwyd yr Aelodau i fynychu'r digwyddiadau hyn.

Penderfynwyd bod y Clerc i anfon crynodeb am bwy fydd yn bresennol ym mhob sesiwn.

91/15 <u>Ceisiadau am Drwyddedau:</u>

Cyflwynodd y Clerc rhestr o geisiadau a restrwyd gan GBSC, er gwybodaeth.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r rhestr o geisiadau am drwyddedau.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.25 pm

…… Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD AT 6.30PM ON TUESDAY 7TH JULY 2015, IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY

PRESENT: The Mayor, Cllr Dr S Roy
Cllr D Porter (Chairman)
Cllrs: W Bagnall, N Bastow, Mrs L Edwards, R Foreman, Mrs L Griffiths,
Mrs M Jones, J Pearson (Tree Warden), S Williams, C Wood

OFFICER: Mrs C Earley, Town Clerk

83/15 Welcome and Apologies for Absence:

Apologies for absence were received from Cllr C Perry and Charlotte Gardner, Student Advisor.

84/15 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

85/15 Minutes:

Resolved to approve and sign as a correct record the minutes of the last meeting, held on 16th June 2015.

86/15 Matters Arising from Previous Minutes:

a. **Min. 30/15(a) – Illegal Parking at Road Junctions:**

The Clerk submitted a brief response from Highways and a detailed response from Sgt Keene, N W Police, confirming that failure to observe a provision of the Highway Code (such as parking within 10m of road junctions) shall not render a person directly liable to criminal proceedings. Police Officers therefore need to use their discretion to decide if an obstruction is being caused, in which case a fixed penalty can be imposed under other available legislation. These powers are not available to PCSOs. The advice given to members/public is to report any vehicle considered to be causing an obstruction to the police and an officer will attend, if available. If a particular junction is causing regular cause for concern, the best way to tackle it would be to request Highways to install yellow lines. This not only acts as a deterrent but makes enforcement easier too.

Resolved to receive and note the advice and information from Sgt Keene.

Cllr Foreman advised members that he has been working closely with

Highways Officers for a number of years on parking enforcement matters. He proposed that the Officer he has had a lot of assistance from (Emma) should be invited to a future meeting of the Committee to discuss any members' concerns about parking and enforcement matters.

Resolved to write to invite Emma (Highways) to attend a future meeting of the Committee.

b. **Min. 65/15 – Victoria Pier:**

i. The Clerk submitted a brief response to the letter sent to Carl Sergeant, Minister for Natural Resources, confirming that an application has not yet been received from CCBC to demolish the Pier and informing the Council of which legislation/regulations will apply when this is received. It was noted the application by CCBC will be submitted to Cadw in the first instance, before being reported to the appropriate Minister(s) for a decision. The response received did not help to clarify the position regarding a request for a planning inquiry. It was noted that the Clerk has since sent a reply to request further information about this and concern was expressed that such an inquiry may result in costs, which could be chargeable to the person/body requesting it.

Resolved that the Clerk will report any further response to the Committee as soon as it is received and seek clarification regarding who would be responsible for the payment of costs for any planning inquiry.

ii. The Clerk provided a copy of the report submitted by the Pier Steering Group to the Special Meeting of CCBC held on 30th June (via Cllr A Khan, as neither the Town Council or CVPT were permitted to make direct representations to the Council) and Members noted the outcome of that meeting, in that the proposal put by Cllr Khan on behalf of the Steering Group was lost by 18 votes to 16 and the original proposal in the CCBC report was carried. Some County Councillors had been under the impression that both positions were very similar and the meeting had been reassured by both the Chief Executive and Leader that talks would continue to be held with CVPT once more detailed feedback had been received from the HLF. It was also noted that the web-cam recording of the meeting is available to view on the CCBC website.

iii. The Chairman and Clerk then gave brief verbal feedback on a conversation between the Steering Group and Martin Buckridge, HLF, held last Friday. It was noted that the feedback received had done nothing to dispel the concerns of the group that the lack of support from CCBC was the main reason for the refusal. The HLF Board had recognised that the bid had a lot of potential and that redevelopment of the Pier would be good for both community engagement and economic regeneration. However, the potential for cost escalation, given the two differing conclusions of the engineers,

and the obvious lack of support from the County Council (with the impact this could have on attracting the match funding required) were considered to be too great a risk. The group were given advice on the action they would need to take in order to be in a position to resubmit a bid.

It was noted that a written report and recommendations for next steps would be submitted to the Town Council on 20th July, for consideration.

Resolved to recommend that the Council sends a further letter to Cadw (copied to relevant WG Ministers) to outline the feedback received from the HLF and highlight the impact that the lack of support from CCBC has had on the bid.

87/15 <u>Conwy CBC</u>:

a. The Clerk submitted, for consideration, a consultation letter on the future of Registration Services in Conwy. It was noted that the Colwyn Bay office had been closed since December 2010 and Llanrwst office since May 2013 and that it was now wanted to make these closures permanent, with the main office remaining in Llandudno.

Resolved to recommend that the proposals be supported.

b. The Clerk submitted a written report from Cllr B Bagnall on a meeting of the Bay Life Board, held on 29th June. Cllr Bagnall made particular verbal reference to: discussions about the feasibility of turning the Imperial into a Social Enterprise run hotel; improvements needed to the access from Eirias Park to the promenade; the need for a CPO for a property on Lawson Road to complete a housing project; a request from Wetherspoons for land for a beer garden.

Resolved to thank Cllr Bagnall and receive and note his report.

88/15 <u>One Voice Wales:</u>

The Clerk submitted, for information, a briefing note on Shale Gas and Hydraulic Fracturing (fracking) in Wales received from One Voice Wales.

Resolved to receive and note the information.

89/15 <u>Other Correspondence:</u>

It was noted that the following items of correspondence are available on request from the Clerk:

a. U3A – Introductory letter and selection of brochures
b. Llandudno and Colwyn Bay Tramway Society – Newsletter June 2015
c. Colwyn in Bloom:

i. t was noted that a meeting had been held yesterday and draft minutes would be available later this week. The Wales in Bloom judge will be visiting Colwyn Bay on the morning on Monday 13th July.

ii. The Clerk tabled an e-mail received by the Committee outlining concerns about flower borders in St Johns Church, which had been funded by grants from Wren and others, being grassed over due to a lack of volunteers to maintain them.

It was queried whether the PCC had made any attempts to involve local groups like the Old Colwyn Environment Federation, Old Colwyn Scouts or the Mens Shed to help ongoing maintenance.

Resolved to write to Canon Bellamy to remind the Church of the conditions of grant funding bodies, which would require ongoing maintenance for a minimum of 10 years, and ask if efforts have been made to contact local groups, including those mentioned, to see if any assistance may be available.

90/15 <u>Planning:</u>

a. The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC.

Resolved to submit observations on these applications, as detailed in Schedule 'A' attached.

b. The clerk submitted, for information, the Planning Decisions issued by CCBC for the period 22/05 to 5/7/15.

c. It was noted that application 0/41680 has been withdrawn.

d. The Clerk gave a brief verbal update on the planning training events being held on 15th and 21st July and encouraged members to attend.

Resolved that the Clerk would forward a summary of who would be attending each session.

91/15 <u>Licensing Applications:</u>

The Clerk submitted, for information, a list of any licensing applications listed by CCBC.

Resolved to receive notice of the licensing applications listed.

The Meeting Closed at 7.25 p.m.

…… Chairman